Mantell50(C)_Mantell50(C) 07/07/2010 08:27 Page 1

www.mantellgwynedd.com

MANTELL

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 50
Gorffennaf 2010

CYNNWYS

O Mantell 2
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 3
Canolfan Gwirfoddoli 4
Newyddion 5
Plant a Phobl Ifanc 6
Cyfleoedd Ariannu Y Porth Ymgysylltu 7
Digwyddiadau a Hyfforddiant 8

Mwy o wybodaeth ynghyd â'r newyddion diweddaraf i'w gael ar ein gwefan!

Dathlu Wythnos Gwirfoddolwyr (1af - 7fed Mehefin) yng Ngwynedd

Mae'r wythnos gyntaf ym mis Mehefin wedi hen ennill ei phlwyf yng nghalendr gwirfoddoli erbyn hyn, gan ei bod yn cael ei hadnabod yn genedlaethol fel "Wythnos Gwirfoddolwyr". Prif nodau'r wythnos yw Cydnabod, Gwobrwyo a Recriwtio gwirfoddolwyr.

Uchafbwynt yr wythnos yng Ngwynedd oedd y 'Te Dathlu a Diolch' a gynhaliwyd ym Mhortmeirion, dydd Llun, 7fed Mehefin. Roedd y digwyddiad yn gyfle i gydnabod cyfraniad gwerthfawr gwirfoddolwyr yng Ngwynedd. Y gŵr gwadd am y prynhawn oedd Mr Robin Llywelyn, Rheolwr Gyfarwyddwr Portmeirion. Cyflwynodd Mr Llywelyn dystysgrifau i nifer o wirfoddolwyr ymroddgar o Wynedd oedd wedi eu henwebu ar gyfer y gystadleuaeth 'Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2010'.

Wythnos Gwirfoddolwyr Volunteers' Week

Enillwyr Tystysgrifau 'Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2010' o Wynedd

Yn flynyddol bellach, gwelir y wobr arbennig yma fel cyfle i gydnabod a gwobrwyo pobl sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i'w cymunedau. Mae'r wobr yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac ym mis Chwefror eleni, gosodwyd her i bobl ar draws Cymru i enwebu rhai sydd wedi eu hysbrydoli gyda'r hyn mae rhywun arall yn ei wneud yn wirfoddol. Mae pum categori sef:-
• person ifanc dan 25 • oedolyn • gwirfoddolwr gwyrdd • ymddiriedolwr • grŵp gwirfoddol.

Eleni, derbyniwyd bron i 200 o enwebiadau drwy Gymru, a phump ohonynt o Wynedd – un person ifanc a phedwar oedolyn.

Yn y llun gwelir Mr Robin Llywelyn gydag enillwyr Tystysgrifau Canmoliaeth Uchel yng Ngwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2010 sef : Jenny Evans, Beatrice Easton, Tanya

Maynard, John Jones a Craig Dobbins. Hefyd yn y llun mae Mr Tudor Owen – Cadeirydd Cyngor Gwynedd a Ms Margaret Griffith – Cadeirydd Is-bwyllgor Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd.

Mae rhagor o fanylion am bob un o'r enillwyr, a lluniau o'r dathlu i'w cael ar www.mantellgwynedd.com

Swyddfa Gofrestredig: 23-25 Y Bont Bridd, CAERNARFON, LL55 1AB. Ffôn: 01286 672626 • Ffacs: 01286 678430
Swyddfa Gofrestredig: Yr Hen Orsaf Heddlu • Y Lawnt • DOLGELLAU • LL40 1SB. Ffôn: 01341 422575 • Ffacs: 01341 422147
E-bost: ymholiadau@mantellgwynedd.com • Gwefan: www.mantellgwynedd.com

Elusen Gofrestredig: 1068851 • Cwmni Trwy Warant: 3420271 • Cofrestrwyd yng Nghymru
Cyhoeddir MANTELL gan Mantell Gwynedd. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn Mantell o angenrheidrwyddyn adlewyrchu barn Mantell Gwynedd.
Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi.

Mantell50(C)_Mantell50(C) 07/07/2010 08:27 Page 2

STAFF MANTELL GWYNEDD

CAERNARFON
Prif Swyddog: Bethan Russell Williams

Tîm Gwasanaethau
Hwylusydd Iechyd a Gofal Cym: Sioned Llwyd Larsen.
Swyddog Grantiau a Chefnogaeth: Delyth Vaughan.
Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc: Ann Vaughan Jones.
Cydlynydd Trydydd Sector: Medwyn Williams

Tîm Cyllid a Gweinyddol
Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth Tîm Cyllid a Gweinyddu: Ceren Williams.
Swyddog Gweinyddol: Bronwen Rowlands.
Cynorthwy-ydd Gweinyddol: Tracy Lynne Rotheram

Tîm Canolfan Wirfoddoli
Cydlynydd Gwirfoddoli: Rhianon Jones.
Swyddog Gwirfoddoli: Iola Till.
Swyddog Gwirfoddoli Ieuenctid: Mirain Roberts.
Swyddog Porth Ymgysylltu: Carys Williams

DOLGELLAU
Tîm Gwasanaethau.
Cydlynydd Gwirfoddolwyr Iechyd: Llinos Alun
Tîm Cyllid a Gweinyddol
Cynorthwy-ydd Gweinyddol: Ellen ap Dafydd
Tîm Canolfan Wirfoddoli.
Swyddog Gwirfoddoli: Ann Angharad Fleming

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **12 Tachwedd 2010**.

Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at **Ellen ap Dafydd**, Swyddfa Mantell Dolgellau e-bost: **EllenapDafydd@mantellgwynedd.com** Ffôn **01341 422 575**

Nodyn gan y Prif Swyddog

Efallai, erbyn bydd i'r newyddlen gyrraedd y wasg, y bydd tywydd wedi newid eto, ond, ar hyn o bryd, mae'r haul ar ei orau.

Y tywydd braf mae'n siŵr oedd un ffactor ddenodd tua chant o bobl i Bortmeirion ddechrau mis Mehefin i'r te blynyddol i "Ddathlu Gwirfoddoli". Fel y gwelwch o'r lluniau a'r adroddiad yn y newyddlen 'roedd yn llwyddiant ysgubol a phawb wedi mwynhau'r achlysur. 'Rwyf wedi clywed hanes creu hafan Portmeirion nifer fawr o weithiau a byddaf yn mynd yno yn weddol aml i ymweld. Mae 'na ryw hudolrwydd anesboniadwy yn perthyn i'r lle. Byddaf yn canfod rhywbeth newydd yno bob tro (fel arfer planhigyn neu goeden) ond y canfyddiad ar yr achlysur yma oedd mai £13 gostiodd nenfwd gogoneddus Neuadd Ercwlff. Dyma ddatgelodd Robin Llywelyn yn ei anerchiad i'r gynulleidfa yn y te gwirfoddoli. Prynwyd y nenfwd mewn arwerthiant o stad yn sir y Fflint, fe'i lapiwyd mewn gwair er mwyn ei storio yn ddiogel am rai blynyddoedd ac fe'i defnyddiwyd yn ddiweddarach i addurno nenfwd Neuadd Ercwlff. Do, cawsom ein diddanu gan Robin gyda hanes y pentref a hanes ei deulu.

Do, mi ddaeth y gyllideb unwaith eto dan lywodraeth y glymblaid newydd yn San Steffan ac, ydan, mi rydan ni mewn dirwasgiad…….ond ffaith economaidd ddiddorol a glywais yn ddiweddar oedd bod y Trydydd Sector wastad wedi tyfu mewn cyfnod o ddirwasgiad. Mae'n siŵr fod hyn am fod 'na gyfleoedd newydd yn cael eu hadnabod wrth chwilio am arbedion - ac, wrth gwrs, mae'r Trydydd Sector wastad wedi medru darparu gwasanaeth o safon uchel a hynny yn aml yn llawer rhatach na'r sector gyhoeddus. Bydd yn ddiddorol gweld sut bydd y "Big Society" yn esblygu dros y blynyddoedd nesaf a sut, os o gwbl, y gwneith y llywodraeth newydd yn San Steffan unrhyw wahaniaeth i'r Trydydd Sector yng Nghymru.

Mae 'na nifer o gyfleoedd ariannu yn ymddangos yn ddiweddar gyda'r ffocws yn benodol ar y Trydydd Sector. Efallai fod hyn yn adlewyrchu, yn barod, yr hyn a nodais uchod am gyfleoedd unigryw i'r Trydydd Sector. Un o'r cyfleoedd rheiny yw arian Loteri - a chyfeiriaf yn benodol at raglen newydd LLAWN BYWYD sy'n agored i'r Trydydd Sector yn unig. Mae pwyslais y gronfa hon ar wasanaethau cyfeillio ac adfocatiaeth - dau faes Trydydd Sector cryf. Mae nifer o gronfeydd Loteri eraill fydd yn ymddangos dros y misoedd nesaf yn cynnig cyfleoedd unigryw i'r Trydydd Sector. Cadwch olwg amdanynt.

Yn olaf, dwi am dynnu eich sylw at ddigwyddiad fydd yn cael ei gynnal ar Orffennaf 14eg sef Rhwydwaith Iechyd Gofal a Lles a Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc Trydydd Sector - ar y cyd. Mae yna gymaint o faterion sydd yn gyffredin i'r ddau faes bellach a bydd y digwyddiad Rhwydwaith yma yn gyfle i fynd i'r afael a rhai o'r prif themâu cyffredin sef tendro a chyfranogi.

A dyna'r cyfan am y tro. Mwynhewch y newyddlen!

Bethan

Mantell50(C)_Mantell50(C) 07/07/2010 08:27 Page 3

Cynllun Gwarchodwyr Iechyd Gwirfoddol yn y Gymuned

Dyma gynllun newydd a chyffrous - gwirfoddolwyr yn cefnogi pobl sy'n byw gyda chyflwr iechyd tymor hir trwy gynnig gwasanaeth cyfeillio, gwrando a chyfeirio yn Ne Gwynedd.
Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr o bob oedran a chefndir i:

- Ymweld â phobl yn eu cartrefi
- Mynd am dro gyda hwy
- Helpu gyda siopa neu fynd am baned i gaffi
- Rhoi seibiant i ofalwyr
- Helpu i chwilio am gefnogaeth bellach

Rydym hefyd yn awyddus i glywed gan bobl fuasai'n hoffi defnyddio'r gwasanaeth.
Yn olaf, rydym hefyd yn cynnig dod i roi sesiwn wybodaeth i'ch clwb neu grŵp am y gwasanaethau iechyd, gofal a lles sydd ar gael yn eich ardal - fel fod pawb yn gwneud y defnydd gorau o beth sydd ar gael yma. Bydd noson hyrwyddo ym Mlaenau Ffestiniog ar yr 20fed o Orffennaf - Lleoliad i'w gadarnhau.
Os hoffech wybod mwy, yna cysylltwch â **Llinos Alun** yn swyddfa Dolgellau ar **01341 422575**, neu **llinos.alun@mantellgwynedd.com**

Lansio rhaglen Llawn BYWYD y Gronfa Loteri Fawr

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru'n darparu £20 miliwn o dan eu Rhaglen Llawn BYWYD i gefnogi prosiectau pobl hŷn sy'n arbenigo mewn cynnig gwasanaethau Bod yn Gyfaill ac Eiriolaeth ar draws Cymru.
Am fwy o wybodaeth ewch ar:

www.cronfaloterifawr.org.uk
Dyddiad cau - 29 Hydref 2010

Grwpiau Rhaglen Glinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r Grwpiau Rhaglenni Clinigol bellach ym mynd rhagddynt ac mae'r Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r chwe Chyngor Gwirfoddol Sirol ar draws Gogledd Cymru yn aelodau ar y Grwpiau canlynol:
Gofal Cychwynnol, Cymuned a Meddygaeth Arbenigol (CGS Conwy); Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (CGS Dinbych); Canser, Meddygaeth Liniarol a Haematoleg Glinigol (Mantell Gwynedd); Plant a Phobl Ifanc (CGS Y Fflint); Therapïau a Chefnogaeth Glinigol (Medrwn Môn) a Gofal Merched a Mamau (AVOW – Wrecsam)
Os ydych angen mwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â **Sioned Larsen** ar **sioned@mantellgwynedd.com** neu trwy ffonio **01286 672 626**.

GRANT COMIC RELIEF

COMIC RELIEF

Amcanion y Rhaglen 'Comic Relief' DU yma yw ceisio sicrhau newidiadau cadarnhaol a pharhaol i newid bywydau pobl dlawd a phobl sydd dan anfantais yn y DU drwy fuddsoddi mewn gwaith sy'n cyfarch anghenion pobl yn ogystal â cheisio mynd i'r afael a'r hyn sy'n achosi tlodi ac anghyfiawnder.
Gall elusennau cofrestredig a mudiadau gwirfoddol (gan gynnwys mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol) yn y DU wneud cais am grantiau rhwng £25,000 a £40,000. Gellir defnyddio'r grantiau ar gyfer costau refeniw neu gyfalaf. Am fwy o wybodaeth ewch ar **www.comicrelief.com**
Dyddiad cau ar gyfer Cylch:
4 – Medi 17 2010

Llinell Gymorth British Lung Foundation

Mae'r tîm sy'n cefnogi'r llinell gymorth BLF yn gallu rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i bobl sydd efo cyflyrau ar yr ysgyfaint gan gynnwys eu Gofalwyr. Gellir cael gwybodaeth am faterion megis sut i reoli cyflyrau ar yr ysgyfaint, budd-daliadau ac yswiriant teithio ayb. Rhif ffôn y llinell gymorth yw **08458505020**

Timau Ardal – Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae Timau Ardal bellach wedi cael eu sefydlu ac yn weithredol yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd ac yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol sefydliadau o fewn y byd iechyd gan gynnwys: Meddygon, Nyrs Ardal, Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Cymdeithasol, y Trydydd Sector, Fferyllwyr, Gwasanaeth Therapïau, Gwasanaeth Ambiwlans a Rhanddeiliaid eraill.

Yr amcan yw galluogi staff aml asiantaethol o'r ardaloedd i weithio mewn partneriaeth fel tîm integredig i gynllunio, darparu a monitro'r gwasanaethau lleol gorau i breswylwyr, trwy sicrhau:

- datblygiad integredig o fewn yr ardaloedd
- cyfraniad a datblygiad y trydydd sector
- fod y gwasanaethau'n adlewyrchu anghenion yr ardaloedd.

Os oes gennych unrhyw sylwadau, neu unrhyw faterion yr hoffech ddod at sylw aelodau'r tîm ardal, yna cysylltwch â **Medwyn** ym Mantell Gwynedd ar **01286 672626** neu **medwyn@mantellgwynedd.com**

Mantell50(C)_Mantell50(C) 07/07/2010 08:27 Page 4

CYSTADLEUAETH TYNNU LLUNIAU

Fel rhan o ddathliadau Wythnos Gwirfoddolwyr eleni, am y tro cyntaf, trefnwyd cystadleuaeth i unigolion a / neu fudiadau i anfon lluniau sydd yn cyfleu GWIRFODDOLI yng Ngwynedd. Diolch i bawb wnaeth ymateb i'r gystadleuaeth, ac i Mr Alistair James (Undeb Credyd y Llechen) am eu beirniadu. Dyma'r llun buddugol. Dafydd Davies Hughes Menter Felin Uchaf, Rhoshirwaun oedd wedi tynnu'r llun.

Yn ystod y 'Te Dathlu a Diolch' ym Mhortmeirion cyflwynodd y Cynghorydd Tudor Owen wobr, sef hamper panad, i gynrychiolwyr o Fenter Felin Uchaf.

Wythnos Gwirfoddolwyr drwy lygad y camera

Te Dathlu a Diolch – Portmeirion, 7fed Mehefin. Mwynhau'r Te!

Stondin Wybodaeth – Bangor, 2il Mehefin. Bu'r stondin hefyd ym Mhwllheli, Blaenau Ffestiniog a Thywyn.

Swyddfa Agored Caernarfon, 4ydd Mehefin.

Cynghorydd Huw Edwards a Mrs Tegwen Edwards yn mwynhau panad!

Copi o newyddion a gwybodaeth ddiweddaraf i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ewch i'r adran **Newyddion** ar wefan Mantell Gwynedd - **www.mantellgwynedd.com**

Mantell50(C)_Mantell50(C) 07/07/2010 08:27 Page 5

Gwynedd
AR Y CYD ~ TOGETHER

Mae Gwynedd ar y Cyd, sy'n hyrwyddo cydweithio yn y sir, yn dechrau proses newydd o gynllunio ar gyfer y dyfodol. Y bwriad, gyda chydweithrediad cyrff gwirfoddol a chyhoeddus y sir, yw gweithredu ar y cyd i gwrdd ag anghenion y sir ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Yn ystod y blynyddoedd nesaf, mae disgwyl y bydd pwyslais cynyddol ar gydweithio, ac mae Gwynedd ar y Cyd yn awyddus i glywed eich barn chi. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **AledPrice@gwynedd.gov.uk** neu ffoniwch **01286 679438**

Ffarwel

Wrth gael y newyddlen i'r wasg dymunaf fanteisio ar y cyfle i ffarwelio a diolch i chi i gyd. Ar ôl dros 12 mlynedd byddaf yn gadael Mantell. Cefais y fraint o fod ynghlwm a nifer o ddatblygiadau difyr a chyffrous a chefais bleser mawr o deimlo'n rhan fach o brosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn yma yng Ngwynedd. Dymunaf y gorau i chi oll.

Rwy'n edrych ymlaen at yr her newydd yn fy swydd fel Cydlynydd Cymunedau'n Gyntaf Pen Llŷn, a gobeithiaf fedru cyd-weithio a llawer ohonoch eto yn y swydd honno.

Hwyl fawr,
Meinir

Cyfleoedd lleoliadau gwaith ar gyfer y trydydd sector

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action

A oes darn o waith neu brosiect tymor byr yr hoffai eich mudiad ei gyflawni, fel ymchwil neu drefnu digwyddiad?

Os felly, mae'n bosib y byddai gennych ddiddordeb mewn rhaglen beilot sy'n cael ei rhedeg gan WCVA sy'n cynnig lleoliadau gwaith i fyfyrwyr yn y trydydd sector.

Nod y Rhaglen Lleoliadau Gwaith i Fyfyrwyr yw darparu sgiliau a gwybodaeth arbenigol i fudiadau'r trydydd sector drwy leoli graddedigion i gyflawni darn o waith neu brosiect penodol. Cysylltwch â: Julie Skelton ar **jskelton@wcva.org.uk**

Gwefan ar ei newydd wedd

www.charitycommission.gov.uk

Gallwch yn awr gofrestu ar-lein a chael gweld ystod eang o gyhoeddiadau a chanllawiau i elusennau, ac mae'r rhain i'w gweld o dan 'Gofynion a Chanllawiau Elusennau'.

Nodwedd newydd arall yw ein gwasanaeth Rhybuddion e-bost, sy'n dwyn sylw pobl at unrhyw ganllawiau newydd neu newidiadau y mae'r Comisiwn Elusennau yn eu cyhoeddi. Rydym newydd gyhoeddi pedwar canllaw ariannol newydd mewn ymateb i'r hinsawdd economaidd bresennol:

Elusennau a Rheoli Risg (CC26)
Anawsterau Ariannol ac Ansolfedd (CC12)
Elusennau a Chronfeydd Wrth Gefn (CC19)
Rheolaethau Ariannol Mewnol (CC8)

Croesawn adborth ar ein gwefan newydd ac ar ein gwasanaethau ar-lein.

Cymrwch olwg arni!

Arolwg cymunedol ag anghenion tai ardal Porthmadog

Fel rhan o waith Strategaeth Pobl Hŷn mae Cyngor Gwynedd, Age Concern a Gofal a Thrwsio Gwynedd Cyf wedi dod ynghyd i ganfod barn trigolion ardal Porthmadog am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig iddynt, ynghyd a dod i wybod mwy am eu hanghenion tai penodol.

Bydd arolwg yn cael ei ddosbarthu yn ystod yr Haf, a bydd y wybodaeth fydd yn cael ei gasglu yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynllunio gwasanaethau i'r dyfodol.

Am fwy o wybodaeth ar sut i dderbyn copi cysylltwch ag **Emma Davies** o Gyngor Gwynedd ar **01286 679 705**.

Deddfwriaeth arwyddocaol ym maes cydraddoldeb

Ar 8fed o Ebrill 2010, cafodd y Mesur Cydraddoldeb Gydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cynnwys cyfres o fesurau ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ym Mhrydain

Mae Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth yn darparu canllaw defnyddiol a syml ar yr hyn y mae'r Mesur Cydraddoldeb yn ei olygu i chi: **www.tiny.cc/von8z**

Lansio galwad €35 miliwn am brosiectau newydd eco-arloesi

Yn unol â galwad Eco-arloesi 2010 y Rhaglen Cystladleurwydd ac Arloesi am gynigion, mae cyllid ar gael ar gyfer prosiectau newydd ym meysydd ailgylchu deunyddiau, cynhyrchion adeiladu cynaliadwy, y sector bwyd a diod ac arferion busnes gwyrdd. Bydd croeso arbennig i geisiadau gan fusnesau bach â chynhyrchion neu wasanaethau gwyrdd sydd ag angen cefnogaeth i dreiddio i farchnadoedd. Mae'r alwad yn para tan 9 Medi 2010.

ww.wtinyurl.com/y5t7rs

Mantell50(C)_Mantell50(C) 07/07/2010 08:27 Page 6

Grant Dan Arweiniad Pobl Ifanc Gwynedd - GWIRVOL

Prif bwyslais y grant yma yw cefnogi prosiectau gwirfoddoli bach a gynhelir ac a arweinir gan bobl ifanc. Yn ôl canllawiau'r grant, panel o bobl ifanc sydd yn gwneud y penderfyniadau ar y ceisiadau ac yn dyrannu'r grantiau, ac ar y 26ain o Fai, daeth y Panel Dyrannu Grantiau at ei gilydd i edrych ar y ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer y rownd gyntaf a daeth 8 cais i law. Roedd 7 cais yn llwyddiannus y tro hwn.

Mae'r **ail rownd** ar agor yn awr. Y dyddiad cau i dderbyn ceisiadau ar gyfer yr ail rownd yw dydd Gwener y **1af o Hydref 2010**.

Am becyn cais a rhagor o wybodaeth cysylltwch â **Mirain Roberts** yn Mantell Gwynedd ar **01286 672626** neu **mirain@mantellgwynedd.com**

Gwirfoddolwyr y Mileniwm - Llwyddiannau

Da iawn i dri gwirfoddolwr ifanc ar gynllun Gwirfoddolwr y Mileniwm.

Nichola Anne Ryan *(ar y dde)*
Tystysgrif am 50, 100 a 200 awr o wirfoddoli. Yn gwirfoddoli gyda Siop Elusen YMCA ym Mangor.

Catherine Higham
Tystysgrif 50 awr o wirfoddoli. Gwirfoddoli gyda Siop BHF yng Nghaernarfon.

Nathan Burdett *(isod)*
Tystysgrifau 50, 100 a 200 awr o wirfoddoli. Yn rhoi ei amser i'r Air Training Corps, Caernarfon, Ysgol Pendalar, Siop Elusen Y Groes Goch Brydeinig.

Strategaeth Tlodi Plant Cymru a'r Cynllun Cyflawni.

Mae bron i draean o blant Cymru yn byw mewn tlodi. Trwy'r fframwaith deddfwriaethol newydd sydd ar waith o dan Ddeddf Tlodi Plant 2010 a Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth y Cynulliad drwy gydweithrediad awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill wedi rhoi camau ar waith i geisio dileu tlodi plant erbyn 2020.

Yn dilyn cyhoeddi'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) yn gynharach yn y flwyddyn, roedd dyletswydd cyfreithiol ar Lywodraeth y Cynulliad i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru.

Lansiwyd y strategaeth newydd ar gyfer ymgynghori arni yn ystod Mai 2010. Daw'r dyddiad cau i ben ar 12ed Awst, 2010. Mae'n nodi sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru a gwella'r canlyniadau i blant a rhieni o deuluoedd incwm isel.

I ymateb dilynwch y ddolen:
http://wales.gov.uk/consultations/childrenandyoungpeople/cpstrategy/?lang=cy

Ffarwelio â ffrindiau da!

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'ch hysbysu mod i'n gadael fy swydd fel Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc â Mantell Gwynedd ddiwedd y mis. Ymddiheuriadau am yr ystrydeb ond mae'n rhaid i mi nodi mod i wedi mwynhau fy nghyfnod yma yn Mantell yn fawr. Cefais gyfle a'r fraint i ddod i adnabod a gweithio â chynifer ohonoch yn ystod y cyfnod. Hoffwn ddiolch o waelod calon am eich cefnogaeth a'r anogaeth a dderbyniais yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac wrth gwrs am wneud y profiadau hynny yn rhai mor bleserus. Er gwybodaeth, bydd Mantell yn sicrhau dilyniant i'r swydd cyn gynted â phosib. Gyda hyn mewn golwg, gaf i ddymuno yn dda i chi gyd a diolch eto am y cyfle i gydweithio â chi.

Cofion gorau a ffarwel!
Ann

Mantell50(C)_Mantell50(C) 07/07/2010 08:27 Page 7

Gwobrau Cymunedol Ymddiriedolaeth Elusennol Tesco (y DU)

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Tesco wedi cyhoeddi ei bod yn awr yn derbyn ceisiadau am brosiectau sy'n cefnogi plant, eu haddysg, a'u lles. Gall ysgolion, cymunedau a grwpiau gwirfoddol wneud cais am grantiau o rhwng £1,000 a £4,000. Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Tesco wedi'i sefydlu er 1987, a'i nod yw dyrannu grantiau o tua £600,000 bob blwyddyn. Mae prosiectau a gefnogwyd yn flaenorol yn cynnwys gardd synhwyraidd; dosbarthiadau yn yr awyr agored; clybiau brecwast ac ar ôl ysgol; cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau; a chyfraniadau tuag at brynu bysiau mini. **http://cr2010.tescoplc.com/communities/tesco-charity-trust.aspx**

Cyllid ar gyfer Gweithgareddau Creu Cerddoriaeth

Mae Youth Music, elusen cerddoriaeth fwyaf y DU, wedi cyhoeddi bod ei rhaglen grantiau ar agor i dderbyn ceisiadau. Mae grantiau o rhwng £5,000 a £30,000 ar gael drwy ei Rhaglen Agored i gefnogi prosiectau sy'n darparu gweithgareddau creu cerddoriaeth i blant a phobl ifanc er mwyn cefnogi nodau Youth Music. Bydd Youth Music yn ariannu unrhyw fudiad di-elw sydd wedi'i sefydlu ers dros flwyddyn, ac sydd wedi ymrwymo i ddarparu gweithgareddau creu cerddoriaeth i blant a phobl ifanc hyd at 18 (neu hyd at 25 os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig, anableddau neu os ydynt mewn canolfannau cadw). Y dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau yw **10 Medi 2010**. **http://www.youthmusic.org.uk/looking_for_music_funding/Open_programme.html**

RHAGLEN SIOPAU GWLEDIG

Mae'r rhaglen hon dan ofal Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig cyngor a chymorth ariannol i fusnesau a chymunedau gwledig ledled Cymru, gan gau'r bwlch yn y ddarpariaeth o ffynonellau ariannu traddodiadol. Targedir y gefnogaeth at fusnesau, mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol mewn pentrefi ac aneddiadau gwledig. Os mai dim ond un siop sydd mewn pentref, gall perchnogion y siop honno dderbyn gwerth diwrnod a hanner o gyngor adwerthu arbenigol. Ar ôl derbyn cyngor, gall busnesau wneud cais am hyd at £5,000 i helpu i roi mesurau ar waith i wneud y busnes yn fwy cynaliadwy. Cynigir cymorth mewn amgylchiadau lle mae cymuned eisoes wedi colli ei siop leol hefyd. Bydd grantiau o hyd at £10,000 yn caniatáu i wasanaethau gael eu hadfer. Gellir cyflwyno cais unrhyw adeg.
www.wales.gov.uk/publications/accessinfo/drnewhomepage/lifedrs2/2010/rurepr12ruau18ru/;jsessionid=71bnLFgfNgLqptl2YBr43ld6fpsNVHlpNydxSp5GBTQKmGTSLhrc!1135659162?lang=cy

Wells Sports Foundation

Mae'r sefydliad newydd, Ymddiriedolaeth Chwaraeon Wells newydd ddechrau rhoi grantiau i glybiau chwaraeon ac ysgolion i helpu i ariannu prosiectau a fydd yn cynyddu nifer y bobl ifanc a fydd yn cymryd rhan mewn chwaraeon heddiw ac yn y dyfodol. Mae'n bosib cael grantiau o hyd at £2,000 ar gyfer grwpiau a chlybiau o Gymru, Yr Alban a Lloegr. Mae'r Cynllun Grantiau Chwaraeon yn awyddus i ariannu prosiectau sy'n cefnogi datblygiad a chynaliadwyedd clybiau chwaraeon. Gall hyn gynnwys prosiectau lle mae angen cyfarpar sy'n ganolog i gynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan, archwiliadau Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer gwirfoddolwyr, cymwysterau hyfforddi a chyrsiau dyfarnu. Mae'n bosib llwytho taflen Cwestiynau Cyffredin **www.wellsportsfoundation.org/media/24837/faqs.pdf.** Mae'r Cwestiynau Cyffredin yn hynod o bwysig i ymgeiswyr y tu allan i Loegr. Derbynnir ceisiadau ar unrhyw adeg. Am fwy o fanylion ewch i **www.wellssportsfoundation.org** neu ffoniwch **01524 590 600**

Ynni'r Fro

Mae Ynni'r Fro yn rhaglen newydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi datblygiad cynlluniau ynni adnewyddol gan fentrau cymdeithasol. Mae'r rhaglen yn cynnig cymorth i fentrau cymdeithasol trwy dîm o swyddogion datblygu, grantiau paratoadol hyd at £30,000 at gostau fel ymchwil ar brosiect posib, gweithio efo cymunedau, arolygon amgylcheddol a cheisio am ganiatâd cynllunio, a grantiau cyfalaf hyd at £300,000. Cyswllt â **Dafydd Watts 07837 214810 dafydd@swea.co.uk** ac **Andy Rowland 01654 703965 andy.rowland@ecodyfi.org.uk**

Y Porth Ymgysylltu

Y Porth Ymgysylltu

Caeodd y ddwy dendr ddiwethaf ar y 25ain Fehefin 2010 a gobeithio fod nifer wedi bachu ar y cyfle ac wedi cyflwyno tendr. Y cylch nesaf o dendrau fydd yn cael eu cynnig i fudiadau yw contractau i weithio gyda grwpiau penodol i.e. rhieni sengl, pobl hŷn neu phobl â anableddau. Felly, os ydych chi wedi nodi yn yr HCC (Holiadur Cyn Cymhwyso) eich bod yn gweithio neu'n dymuno gweithio gyda grwpiau 'arbenigol' fel y rhain yna cofiwch edrych allan am y cynigion. Fe fydd Ymgynghorydd Lleol, Y Porth Ymgysylltu yn cael rhestr o pa fudiadau fydd yn cael cynnig tendr. Am fwy o fanylion cysylltwch â **Carys Williams** ar unai **01286 672626** neu **carys@mantellgwynedd.com**

Mantell50(C)_Mantell50(C) 07/07/2010 08:27 Page 8

Hyfforddiant yng Ngwynedd

Y Cynllun Sylwebu/Cyfieithu ar y pryd

Hyfforddwraig – Megan Tomos
Cost: **Am ddim**
Lle:
22 Medi 2010 - Blaenau Ffestiniog 4.30 – 7.00pm,
29 Medi 2010 - Coleg Meirion Dwyfor, Pwllheli 4.30-7.00pm
6 Hydref 2010 - Tremadog, Hen Eglwys y Santes Fair :
Rhwydwaith i fynychwyr i ddod at ei gilydd i ymarfer 4.30 – 7pm

Cynllun peilot yw hwn; cwrs sy'n rhoi cyfle i chi fagu hyder wrth ddelio gyda phobl ddi-gymraeg mewn cyfarfodydd cymunedol. Byddwch yn dysgu sgiliau sylfaenol cyfieithu ar y pryd, a fydd yn eich galluogi i dywys pobl sy'n ddihyder yn y Gymraeg i ddod yn rhan o weithgareddau Cymraeg. Ar ddiwedd y ddau ddiwrnod byddwch â mwy o hyder yn eich gallu i roi cynnig ar gyfieithu, sylwebu neu grynhoi ar gyfer unigolion di-gymraeg mewn gweithgareddau cymunedol.

Cysylltwch â Mantell Gwynedd

FFAIR ARIANWYR A CHYFARFOD BLYNYDDOL MANTELL GWYNEDD

Tachwedd 10fed 2010

Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog

Cadwch y dyddiad yn glir ar gyfer y Ffair Arianwyr fydd ar y thema 'Mentro'. Trefnir rhaglen llawn o weithgareddau ar eich cyfer. Bydd Cyfarfod Blynyddol Mantell Gwynedd ymlaen gyntaf. Bydd siaradwyr gwadd yn cymryd rhan ac yna cyfle i bobl alw i mewn trwy'r dydd. Bydd stondinau a gweithdai yn rhoi cyfle i chi gael sgwrs gyda gwasanaethau cefnogi busnes sydd ar gael i'r trydydd sector.

Dyddiad i'ch Dyddiadur

Mae Cynhadledd Gwirfoddoli Genedlaethol Cymru yn dod i Wynedd ym mis Medi. Y thema yw:-
Canolbwyntio ar wirfoddoli

Y prif ffocws yw archwilio sut y gall mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ddatblygu ffyrdd o weithio sy'n wir barchu ac yn gwella profiad gwirfoddolwyr.
Lle: **Galeri, Caernarfon.**
Pryd: **Dydd Mercher 15 Medi 2010**

Am ragor o wybodaeth a ffurflen i archebu lle cyswlltwch â Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd (01286 672626) neu WCVA **0292043 1724** ebost: **eventsadmin@wcva.org.uk**

Iechyd Da y Gaeaf Yma 2010

Yn dilyn llwyddiant digwyddiad y llynedd bydd digwyddiad tebyg eleni yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Hamdden Glan Wnion ac yn yr Orsaf Dân, Dolgellau ar Ddydd Gwener Hydref 15 2010.

Bydd nifer helaeth o fudiadau ar gael ar y diwrnod i roi cyngor a gwybodaeth a bydd cyfle i fynychwyr ymgymryd â nifer o weithgareddau blasu ac ymarferion corfforol hawdd.

Trefnir y digwyddiad ar y cyd gan Gynghrair Cyflyrau Iechyd Tymor Hir a Chronig De Gwynedd a Grŵp Cynllunio Pobl Hŷn De Gwynedd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Mantell Gwynedd ar **01341 422575** neu **01286 672626** neu **r.paramor@btopenworld.com**

TY GOBAITH

HOSBIS PLANT Tŷ Gobaith CHILDREN'S HOSPICE

Mae Tŷ Gobaith yn chwaer hosbis i Hope House ac yn gofalu am blant sy'n derfynol wael a'u teuluoedd yng Ngwynedd. Mae eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim, weithiau yn y cartref neu yn yr hosbis yng Nghonwy. Maent bron yn gyfan gwbl ddibynnol ar ymgyrchoedd codi arian lleol ar gyfer y gost flynyddol o un filiwn o bunnoedd sydd ei angen i redeg y lle.

Mae Tŷ Gobaith yn chwilio am bobl sydd â diddordeb mewn codi arian i'r hosbis. Maent hefyd yn cynnig dod i siarad gyda'ch mudiad am eu gwaith. Os gallwch helpu, cysylltwch â **Katrina** ar **01492 596 581.**

SIOE SIR MEIRION 2010

DYDDIAD PWYSIG I'W GOFIO YN MIS AWST

Dydd Mercher Awst 25ain
Lleoliad: Harlech.

Wrth ymweld â'r sioe cofiwch alw heibio i Babell Mantell Gwynedd lle bydd cyfle i gasglu gwybodaeth werthfawr a defnyddiol iawn. O fewn y babell holistaidd eleni bydd cyngor a'r bob math o bynciau megis gwirfoddoli, iechyd, cynaladwyedd, grantiau, cynorthwyo yn y gymuned a llawer llawer mwy. Bydd y cyfan mewn un safle a dan yr un to a chyn ymadael â'r babell beth am gael tylino'r cyhyrau!

Edrychwn ymlaen at eich croesawu.

Os hoffech drafod anghenion eich mudiad o ran hyfforddiant cysylltwch â **Delyth Vaughan 01286 672626,** d**elyth@mantellgwynedd.com**. Neu i gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant cysylltwch ag **Ellen ap Dafydd 01341 422575 EllenapDafydd@mantellgwynedd.com**